# papur priordy



**AR ŴYL Y CYNHAEAF RHOWN DDIOLCH I'R IÔR
AM ROI BARA I'N CADW YN FYW;**

**'O RHANNA DY FARA Â MI, 'MEDD EF
O RHANNA DY FARA Â MI'.**

*J Pinion Jones*
*Dyfyniadau o Emyn 160 (Caneuon FFydd)*

*Dewiswyd gan Gill Owens. Gweler y rheswm am ei dewis y tu mewn*

Rhifyn 304
PAPUR HYDREF 2017

# GAIR GAN EIN GWEINIDOG

# TŶ BACH

***TRA BO’R*** plant a’r bobl ifanc yn cyflwyno nwyddau ar gyfer y Banc Bwyd yn eu Cwrdd Diolchgarwch, bydd casgliad rhydd y bore a’r hwyr ar Sul ein Gŵyl yn mynd at noddi Tŷ Bach mewn gwlad sydd heb ei datblygu! Gadewch i fi esbonio!



A wyddoch chi fod:

* 2.4 biliwn o bobl heb le diogel a glân i ddefnyddio tŷ bach;
* rhai merched a gwragedd sy’n gorfod defnyddio tŷ bach yn yr awyr agored yn hwyr y nos yn agored i gael eu treisio;
* bron i 1,000 o blant yn marw bob dydd o heintiau sy’n cael eu cysylltu â dŵr brwnt neu doiledau brwnt;
* 663 miliwn o bobl yn byw heb ddŵr glân;
* plant yn colli 443 miliwn o ddyddiau ysgol bob blwyddyn oherwydd dŵr brwnt a glanweithdra drwg.




Mae elusen *Taerfund* yn cynnal prosiect o’r enw ‘*Toilet Twinning’* er mwyn sicrhau dŵr glân a glanweithdra da i bawb. Drwy gyfrannu £60 i efeillio’n tŷ

bach ni yn y festri/capel, byddwn yn helpu'r rhai sydd mewn tlodi enbyd i gael mynediad i dŷ bach go iawn, dŵr glân a gwybodaeth angenrheidiol i gadw'n iach. Fe fydd ein tai bach ni ac yng Nghana a Bancyfelin yn derbyn tystysgrif ynghyd â llun lliw a chyfeirnod GPS er mwyn chwilio ar *Google Maps* a gweld yn union ba dŷ bach y byddwn wedi gefeillio ag e!

***FELLY***, beth amdani?! Rhowch yn hael er mwyn i eraill gael y pethau rydyn ni yn y wlad hon yn eu cymryd yn gwbl ganiatadol - dŵr glân a thŷ bach cysurus!



**Gweddi**

Diolch i Ti Arglwydd am y pethau hynny mewn bywyd rydym yn eu cymryd yn gwbl ganiataol.



Cymorth ni i roi'n hael y Cynhaeaf hwn er mwyn cefnogi prosiectau sy'n darparu angenrheidiau bywyd i eraill -  bwyd maethlon a dŵr glân.

Yn enw Iesu Grist

**Amen**

# DIOLCHGARWCH YR OFALAETH – 2017

| | |
|---|---|
| **Y PRIORDY** | |
| **Bore Sul, 1 Hydref am 10** | **Oedfa Blant a Phobl Ifanc am 10** |
| **P'nawn Sul 1 Hydref am 5** | **Oedfa Gymun<br>gyda'r<br>Parchedig John Roberts a'n Gweinidog<br>Swper i ddilyn<br>*Rhoddion y Plant at Fanc Bwyd Caerfyrddin*<br>*Casgliad rhydd y ddwy oedfa at y Cynllun Gefeillio Tŷ Bach*** |
| **CANA** | |
| **Dydd Sul, 8 Hydref am 1.30** | **Cwrdd Diolchgarwch y Plant gyda'r Gweinidog** |
| **Nos Iau, 12 Hydref am 7** | **Oedfa Bregethu<br>Dr Hefin Jones<br>Caerdydd<br>Swper i ddilyn** |
| **BANCYFELIN** | |
| **Dydd Sul, 8 Hydref am 3** | **Cwrdd Diolchgarwch y Plant<br>gyda'r Gweinidog** |
| **Nos Iau, 19 Hydref am 7** | **Oedfa Bregethu<br>Y Canon Eileen Davies Llanllwni<br>Swper i ddilyn** |
| **CARTREF PLAS-Y-DDERWEN** | |
| **Bore Gwener, 20 Hydref am 11** | **Gwasanaeth Diolchgarwch<br>yng nghwmni'n Gweinidog** |

**CINIO DYDD SUL YR OFALAETH**

**15 Hydref 2017**
**Gwesty Pen y Baedd, Heol Awst**

**Pris £15 y pen**

***Enwau ar y daflen yn y cyntedd***



## Papur Priordy'n dod i adnabod

## GWESTAI'N GŴYL DDIOLCHGARWCH

## Y PARCHEDIG JOHN ROBERTS



**PP: Rydych yn gyfarwydd i lawer ohonom fel cyflwynydd *Bwrw Golwg* ar *Radio Cymru*, y rhaglen wythnosol sy'n trin a thrafod materion moesol a chrefyddol gyda gwahanol westeion. Tybed a oes unrhyw gyfweliad neu gyfweliadau neilltuol a wnaethoch yn sefyll allan yn y meddwl am ryw reswm arbennig?**

**JR:** *Cwestiwn bron yn amhosibl i'w ateb mae gen i ofn, mae'r cyfweliadau diweddaraf i rywun ei wneud yn dod i'r cof, er enghraifft dau gyfweliad am y Rohinga yn ffoi o Myanmar i Bangladesh. Roedd eglurder meddwl Rhys Jones yn drawiadol a theimlad Rebecca Jones dros Bangladesh yn amlwg iawn. Ond efallai mai'r un sydd wedi aros yn y cof yw sgwrs efo gwraig ganol oed yn Harare Zimbabwe ym 1996. Roedd y wraig yma, Mrs Chang yn rhedeg ysgol i blant y stryd yn y ddinas. Roedd yna gynnydd mawr yn nifer y plant amddifad oedd yn crwydro'r strydoedd. Felly, a chan fod gan yr Eglwys Bresbyteraidd festri fawr,roedd yn gyrru bws o amgylch y ddinas yn casglu tua thrigain o blant ac yna'n eu dysgu a'u bwydo drwy'r dydd. Mae ei hymroddiad ymarferol wedi glynu yn fy meddwl, gweld yr angen, gweld beth oedd yr adnoddau a gweithredu – roedd hi'n wraig benderfynol a dweud y lleiaf.*



**PP: Faint o her yn eich barn chi yw darparu rhaglenni crefyddol Cymraeg ar gyfer y cyfryngau'r dyddiau hyn pan mae mynychu addoldai'n ymddangos ar drai?**

**JR:** *Cadw cydbwysedd sydd yn anodd, oherwydd mae yna ddisgwyliadau "crefyddol" sydd yn golygu ceisio adlewyrchu beth sy'n digwydd mewn capeli ac eglwysi, ond mae elfen arall sef adlewyrchu'r drafodaeth foesol ac ysbrydol sydd yn digwydd yng Nghymru a'r*

*byd. Nid yw'r drafodaeth honno'n dibynnu ar faint sy'n mynychu oedfa.*

**PP: Rydych yn un o Uwchgynhyrchwyr *Radio Cymru* erbyn hyn. Efallai y gallech amlinellu i ni rai o'ch prif ddyletswyddau yn y swyddogaeth hon.**
**JR:** *Yn fras iawn gofalu am raglenni "llafar" ydi fy ngwaith i, hynny yw rhaglenni trafod Radio Cymru, sef y rhaglenni wythnosol ac achlysurol sydd i'w clywed ar yr orsaf. Mae yna amrywiaeth mawr o raglenni o Fyd Amaeth i Dan yr Wyneb, Ar y Marc i Caniadaeth y Cysegr, Dewi Llwyd i Galwad Cynnar. Fy ngwaith i ydi sicrhau fod y cynhyrchwyr yn cael y gorau allan o'r cyflwynwyr a'r cyfranwyr. Felly, mae yna lawer iawn o wrando rhaglenni a llawer iawn o drafod cynnwys.*

**PP: Ond beth am droi at y gwreiddiau ym Mhen Llŷn a sôn ychydig am fro'ch mebyd a'r dylanwadau cynnar.**
**JR:** *Mab fferm ym Mhen Llŷn, atgofion da iawn o dreulio gwyliau'r Gwanwyn yn aredig a thrin y tir a'r Hydref yn cario ŷd a gwellt. Roedd **capel Smyrna, Llangian** yn allweddol – capel bach a ninnau fel teulu ym mhob oedfa bron iawn – hyd yn oed os oedden ni'n hwyr yn cyrraedd. Ond roedd nain yn bwysig hefyd wrth i ffydd rhywun ddechrau gwreiddio, roedd ei ffydd hi'n gadarn iawn.*



**PP: Yn deall eich bod chi a'ch brawd Robert, sydd hefyd yn weinidog - ym Morfa Nefyn, wedi bod yn dipyn o adroddwyr yng nghyfnod ieuenctid!**
**JR:** *Roedd Eisteddfota'n hwyl, criw mawr o ffrindiau yn cyfarfod bob wythnos a chyfle i gyfarfod pobl o ardaloedd newydd hefyd. Roedd yr hwyl yn bwysicach na'r cystadlu – neu dyna oedd pawb yn ei ddweud!*

**PP: Buoch yn weinidog yng Nglyn Ceiriog gyda'r Bresbyteriaid cyn symud at y BBC. Pa agweddau ar y weinidogaeth lawn amser oedd yn rhoi'r pleser mwyaf i chi a pha rai, o bosib, oedd yn eich digalonni?**

**JR:** *Roedd ceisio cyflwyno neges bob amser yn her ac yn bleser, ond roedd y trafod mewn seiat ac astudiaeth yn fwy difyr a gwaith plant a ieuenctid yn ysbrydoliaeth ac yn sbort. Ond doedd cynnal y sefydliad mewn Henaduriaeth, Sasiwn a Chymanfa Gyffredinol yn rhoi fawr o bleser.*

**PP: Tybed a ydyn ni yn ein capeli a'n heglwysi'n ymateb yn ddigonol i'r ffordd mae pobl yn byw heddiw a gwahanol anghenion ein cymunedau? Beth yw'ch barn?**
**JR:** *Fel yda ni wedi'i weld yn y byd gwleidyddol yn ddiweddar – os ydi pobl yn ofni'r dyfodol mae yna reddf beryglus sydd am godi muriau i'n "gwarchod" ni ac awydd dwfn i ddychwelyd i ryw atgof o fyd. Mae hwnnw'n berygl real i'r eglwys bob amser, ac yn enwedig y dyddiau hyn. Dyn yng nghanol pobl a'u byw bob dydd oedd yr Iesu, nid rhywun wedi ymneilltuo oddi wrth y byd a'i bethau. Rhaid i eglwys wasanaethu'r gymdogaeth mae hi'n rhan ohoni a dyna pam mae'r sgwrs efo'r wraig yn Harare yn aros yn y cof.*

**PP: Rydych yn byw yn Aberystwyth yn awr ond yn teithio gryn dipyn o gwmpas Cymru yn rhinwedd eich swydd. Mae'n siŵr bod oriau hamdden i'w cael, serch hynny. Beth wnewch chi i ymlacio a mwynhau?**



**JR:** *Dipyn bach o bob dim, coginio, darllen, sgwennu, gwylio pêl-droed neu rygbi, mwynhau cwmni teulu a ffrindiau ... fawr o ymarfer corff yn fan yna mae gen i ofn!*

**PP: Ac un cwestiwn arall i gloi, os gwelwch yn dda. A allwch chi gynnig gair o galondid i ni Gristnogion yng Nghymru yn ail ddegawd yr unfed ganrif ar hugain?**
**JR:** *Mae eglwys Iesu Grist wedi mynd drwy gyfnodau llwm iawn ar wahanol adegau, ac yn ddigon aml yr eglwys ei hun sydd wedi achosi hynny. Ond nid ar ein ffyddlondeb ni – er mor bwysig yw hwnnw – mae dyfodol yr eglwys yn ddibynnol ond ar ffyddlondeb Crist i ni. 'Mae'r afael sicraf fry' ydi hi o hyd.*

***Llawer iawn o ddiolch i chi am ateb y cwestiynau ac edrychwn ymlaen at eich croesawu i'n Gŵyl Ddiolchgarwch***

**AR Y WE: www. priordy.org** ***(yn cynnwys Papur Priordy)***

# DIOLCH YN FAWR

***Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad***

**GWEN WILLIAMS**

***Tir Ysgawen, Llangynnwr***

**a**

**YANN IESTYN**

**Lesneven, Llydaw**

***a***

**DAVID A HEFINA LLOYD**

***Dolgwili***

***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***

---

GOFALAETH Y PRIORDY, CANA A BANCYFELIN





## *Taith Gerdded*
## *a*
## *Barbeciw i bawb!*

***Prynhawn Sul, 22 Hydref 2017***

Taith gerdded o amgylch ardal
Abergwili'n cychwyn am 3 o'r gloch yn brydlon

Barbeciw ar ddiwedd y daith yng
Nghanolfan Rygbi'r Cwins, Abergwili

Epilog gyda Beti-Wyn i ddiweddu'r prynhawn

Croeso i bawb o bob oed i gerdded am 3 neu i wledda am 4

**Cŵn poeth £1.50 Byrgyr £1.50 Tê/Coffi / Diod oer a chacen £1**

*Elw'r prynhawn i*
*Apêl Corwynt Cariad, Cymorth Cristnogol*

*Cwrdd o 2.30 o'r gloch ymlaen*
*yng Nghanolfan Rygbi'r Cwins, Abergwili*

## FFAIR Y GLAS




**Roedd gan y Priordy stondin yn Ffair Y Glas, yn Yr Atom eleni eto. Braf cael bod yn rhan o groeso'r dref i'r myfyrwyr newydd ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.**

**Diolch i Sara am helpu ac i Mair Baston am wneud picau ar y maen mor flasus.**

## TE AMNEST

**Nos Sul 8 Hydref 2017 – 5 (Pan fydd y Tabernacl a'r Priordy'n cynnal cwrdd ar y cyd yn y Tabernacl)**

*Trefnir y gwasanaeth unedig hwn mewn cydweithrediad â Chell Caerfyrddin o Amnest; Te a llythyru. Defosiwn, gair am Amnest, paned o de a llythyron i'w harwyddo. Gan fod Cell Amnest yn helpu gyda'r gwaith trefnu bydd rhywfaint o Saesneg. Yn lle'r casgliad arferol bydd unrhyw gyfraniad yn mynd at gostau stampiau ac ati.*

*Malcolm M Jones…..*



## *MARTIN LUTHER AC AMBELL ARWYDDOCÂD O 31 HYDREF 1517 - HYD HEDDIW*

Ystrydeb yw dweud mai dyrys yw llawer o ddigwyddiadau bywyd. Gall eu canlyniadau fod yn annisgwyl a phellgyrhaeddol, hyd yn oed ar ôl 500 mlynedd. Gwir yn bendant yw hynny am ddigwyddiad ar Noswyl Yr Holl Saint 31 Hydref 1517. Hwn oedd catalydd y 'Diwygiad Protestannaidd', gyda'i holl ganlyniadau.

Dioddefaint un gŵr y diwrnod hwnnw oedd asgwrn y gynnen – yn ceisio'n ingol i ddarganfod Duw a ffoi rhag crafangau'r Diafol gan ofni disgyn i Uffern, petai'n marw'n bechadur. Dieithr heddiw? Gwelodd mai diwerth oedd cysegru'i hun i weithredodd da,ymprydio, cosbi'i gorff, cyfrif paderau, a phopeth yr oedd wedi'i brofi. Ei unig obaith i achub ei enaid ar Ddydd y Farn oedd ymbil yn daer am drugaredd a chyfiawnder Duw - drwy Ffydd.

Y pen draw i'r gŵr hwn oedd rhywbeth oedd yn warth iddo:gweld cynrychiolydd Y Pab, Johann Tetzel (wrth gasglu arian i godi Basilica San Pedr - gan gynnwys Capel Y Sistine) yn gwerthu Pardwn (maddeuant pechod) a fyddai'n sicrhau cwtogi cyfnod Purdan, a mynediad i'r Nefoedd.



Un o Frodyr di-nod yr Urdd Awstin Sant oedd y gŵr, **Martin Luther**, mab i gloddiwr copr (gweddol gefnog) o ardal anghysbell yn Yr Almaen, Eisleben a Mansfeld, tua 120 milltir i'r de-orllewin o Berlin heddiw.

Wedi ysgol yn Magdeburg, graddiodd tua 18 oed ym Mhrifysgol enwog Erfurt mewn Cyfreitheg, a chael Gradd Meistr, cyn newid cwrs a throi at Ddiwinyddiaeth, ennill Doethuriaeth a dysgu ym Mhrifysgol newydd Wittenberg. Enillodd fri fel awdur poblogaidd emynau cynulleidfaol ac, maes o law, fel cyfieithydd enwog Y Beibl o'r Hebraeg i'r iaith frodorol a diwygiedig, safonol, Yr Almaeneg.

Ond gymaint oedd ei aniddigrwydd ag Eglwys Gatholig ei ddydd, fel ar 31 Hydref 1517 heriodd Luther yr awdurdodau i ateb 95 o osodiadau mewn cyfarfod y bwriadwyd ei gynnal ym Mhrifysgol Wittenbeg gyda'r nod o lwyr ddiwygio'r Eglwys.

(Nid oes tystiolaeth, mae'n debyg, yn yr 121 cyfrol am Luther yn Archifdy Weimar ei fod wedi 'hoelio''r gosodiadau hyn ar ddrws eglwys y castell yn y dref. Ystyrir hefyd mai 'Anghytunwr Catholig' ydoedd, yn hytrach na 'Phrotestant'.)

Yn y fath sefyllfa, yn ôl yr arfer, byddai Luther wedi'i garcharu a'i losgi wrth y stanc, fel yn hanes diwygwyr blaenorol, er enghraifft Huss yn Bohemia (1415), Savonarola yn Florence (1498) neu rhai o'r Brodyr Ffransiscaidd gynt.

Nid nad oedd gan Luther gadernid, arddeliad a dewrder. Pan gafodd ei ddwyn o flaen ei well i'r 'Diet Ymerodol' dyngedfennol yn ninas Worms 1521, datganodd *'Hier stehe ich. Ich kann nicht anders'* ('Fan hyn 'rwyn sefyll. Ni allaf wneud dim arall').

Sefyllfa wleidyddol a phwer y teyrnasoedd mân y tu mewn i'r Ymerodraeth Lân Rufeinig oedd un rheswm y cafodd Luther loches - yn Sacsoni. Hefyd, lledaenwyd ei enwogrwydd a'i ddaliadau trwy ddatblygiadau arloesol y Wasg ers dyddiau Gutenberg yn y 1440au. (Erbyn 1500 cafwyd rhyw 20 miliwn o gyhoeddiadau ac erbyn 1600 150-200 miliwn, gan gynnwys 300,000 o gopïau o weithiau Luther). Arwyddocaol fu'r cyfathrebu torfol!

Ffafriol hefyd i gyfnod Luther oedd naws a dysgeidiaeth y Dadeni Dysg - er nid ymhob agwedd. Collwyd awdurdod gan yr Eglwys wrth i leygwyr fanteisio ar wybodaeth o'r Hebraeg, Groeg a Lladin cynnar (Y Beibl oedd yr awdurdod mwyach, nid Y Pab) a hefyd ieithoedd brodorol, miwsig newydd a chanu chynulleidfaol. Ar y llaw arall, ac yn wahanol, bu twf mewn Dyneiddiaeth gan ysgolheigion tebyg i Erasmus, a hefyd awydd i ddiwygio pellach, fel gan ddilynwyr Zwingli a Calfin.

Yn Lloegr, fel ar y Cyfandir, *'cuius regio, eius religio'*, sef *'y sawl a reola teyrnas a benderfyna'i chrefydd'.* Sefydlwyd Eglwys Wladol a ddaeth i'w hadnabod fel 'Yr Eglwys Anglicanaidd'. Lledaenodd ei hiaith allan i'r Byd, gyda'r Ymerodraeth. Pellhaodd Lloegr - ac yn sgil hynny fannau eraill o 'Brydain' - oddi wrth 'Ewrop'.


Yng Nghymru, ymysg canlyniadau mawr a dylanwadol 'roedd cyfieithu'r Llyfr Gweddi Cyffredin, Y Testament Newydd a'r Beibl i'r Gymraeg rhwng 1576-1620, datblygiadau Ysgolion Cylchynnol

(Griffith Jones), Ysgolion Sul (Thomas Charles), canu cynulleidfaol (ac emynau Pantycelyn), y Diwygiad Methodistaidd, datblygiadau addysg ar ôl 1847 a thwf y Wasg, radicaliaeth a chenedlaetholdeb, er enghraifft. Erbyn Cyfrifiad 1851 roedd Cymru'n wlad Ymneilltuol.

Erbyn 1920 datgysylltwyd yr Eglwys yng Nghymru.

Dros y 500 mlynedd ers dydd Luther bu llu o newidiadau ym myd syniadaeth a gweithred. Araf fu twf goddefgarwch crefyddol. Cofier erchyllderau triniaeth Cristnogion fel Cranmer, Ferrar, John Penry neu Archesgob Laud, a Rhyfeloedd Cartref cyfnod Siarl 1af. a Cromwell ac yn Ewrop 1618-1648. Roedd hi'n 1830au cyn y goddefwyd Undodiaeth ym Mhrydain.

Bu'r Forwyn Fair yn benbleth i Brotestaniaeth a bu cryn amser cyn iddi gael ei haildarganfod. Ynglwm â hyn roedd tuedd gref i gefnu ar bortreadau gweledol ohoni, a gwrthwynebiad hyd yn oed i'r ferch fel y cyfryw, yn enwedig i'r ferch sengl.




Bu'r mater o Fedydd hefyd yn arwyddocaol : ai addas i oedolion yn unig, a sut? Pwysleisiodd rhai’r angen am *'Ail-Fedydd'* (yr Annabaptists).

Ceisiwyd dehongli perthynas rhwng Cyfalafiaeth a Phrotestaniaeth gan ysgolheigion, yn enwedig **R.H.Tawney,** wrth gynnig eglurhad am sialensau newydd.

Ac fel y bu pellhau rhwng 'Prydain' ac 'Ewrop', bu pellhau hefyd rhwng 'Ewrop' ac 'America', yn rhannol oherwydd twf agweddau gwahanol ar 'Brotestaniaeth', fel diwygiadau ysbrydol Pentecostaeth (gwelwyd i raddau yng Nghymru yn yr 1890au a'r 1900au) yn Nwyrain a Gorllewin yr Unol Daleithiau. Dyblwyd Protestaniaeth yn Ne America mewn cenhedlaeth.

Profwyd ddatblygiadau arwyddocaol i'r Byd cyfoes. Adfywiwyd Protestaniaeth yn Corea. Bu twf anffurfiol mewn cyfarfodydd preifat yn Tsieina wedi'r 'Chwyldro Diwylliannol'. Yn Yr Affrig datblygodd mudiadau'n anelu at 'ailefengylu' Prydain, gan gynnwys y Gymuned Anglicanaidd. Gwelwyd hefyd - yn rhannol wrthun i'r 'Gorllewin' - dwf credoau a mudiadau 'ffwndamentalaidd'.
Ochr yn ochr â hyn i gyd, ac yn dilyn y 'Diwygiad Gatholig' yng nghanol yr16eg, llwyddodd yr Eglwys Babyddol i adennill cymaint

o'i dylanwad ar draws y Byd fel yr amcangyfrifir fod 1.3 biliwn o bobl yn perthyn iddi heddiw - ymhell ar y blaen i Brotestaniaeth.

Heddiw ym Mhrydain, ac wedi Darwin, clywyd fod Cristnogaeth ar drai. Dywedir ein bod yn byw mewn 'Oes Ôl-Gristnogol' - annuwiaeth, anffyddiaeth, anghred. Ac eto ni dderbynnir mai Oes Seciwlar ydyw. Dadleuir gan arbenigwyr mai nid seciwlariaeth sy'n bodoli - yn enwedig ymysg yr ieuanc. Gwir efallai nad ydynt fel y rhelyw am fynychu sefydliadau a chyfundrefnau crefyddol, eglwysi a chapel. Eto, yn eu bywydau sengl ceir rhywbeth yn hytrach na seciwlar yn ei hymrwymiad i faterion fel iechyd, ffawd a rhamant a'r syniad o berthynas uniongyrchol rhwng yr unigolyn â Duw.




Os yw 31 Hydref 1517 bum canrif yn ôl, 'mae yma o hyd'!

# ‘Agor y Gair’

***Cyfres newydd o Astudiaethau Beiblaidd Cymraeg yng Nghaerfyrddin***

**Pryd?**
**Boreau Mercher - 18, 25 Hydref / 1 ac 8 Tachwedd 2017**

**Amser?**
**11.00 tan 12.00**

**Ble?**
**Canolfan ‘Yr Atom’, Stryd y Brenin, Caerfyrddin**

**Arweinwyr**
**Y Parchedig Peter Cutts a’r Parchedig Beti-Wyn James**

**Tâl?**
**Nac oes**

**Croeso cynnes iawn i bawb?**
**OES!**

**Meinir Jones.....**



## CWRDD PLANT A PHOBL IFANC

***Bore Sul 3 Medi 2017***

Ar ôl chwech wythnos o wyliau i blant yr Ysgol Sul, braf oedd cael dychwelyd i'r capel ar y Sul cyntaf ym mis Medi ar gyfer cwrdd plant a phobl ifanc. Yn ei gweddi a'i geiriau agoriadol estynnodd Beti-Wyn groeso cynnes i bawb ac yn enwedig i ffrindiau, gyda rhai yn bresennol am y tro cyntaf. Trueni nad oedd y tywydd y tu allan yr un mor gynnes â'r croeso y tu mewn!

Anna gyflwynodd yr emyn cyntaf mewn ffordd naturiol iawn gyda'r gynulleidfa'n ymuno â'r band, Nicki, Phillip, Gareth G, Jayne, Elin, Sara, Gareth J, Elis ac Erin i ganu cân o foliant i'r Arglwydd mewn modd hwyliog. Yn dilyn y cyhoeddiadau daeth Jona, Iestyn, Osian a Trystan o amgylch i gasglu'r offrwm.

Brawd a chwaer ddaeth i gyflwyno'r ail emyn, sef Jac a Mali, a hynny'n glir a hyderus. Soniai'r emyn am yr hedd sy'n llifo fel yr afon.

Yng nghyflwyniad difyr Gwion a Jac T soniwyd am rai o ddigwyddiadau'r haf megis y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd. Nodwyd iddi fod yn sioe lwyddiannus iawn eleni gan mai Sir Gâr oedd yn ei noddi! Daeth llwyddiant i ran nifer o'r Priordy hefyd dros yr haf, er enghraifft ym mabolgampau MIC, ac yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Sir Fôn enillodd Siwan dwy gystadleuaeth, sef yr unawd alaw werin a'r unawd cerdd dant. Testun y darn cerdd dant oedd Dyfrig y Dwrgi, a hyfryd oedd clywed Siwan yn ei ganu yn y gwasanaeth. Hawdd gweld sut y gwnaeth llais Siwan swyno'r beirniad a sicrhau mai hi ddaeth i'r brig. Llongyfarchiadau mawr!

Fel rhagarweiniad i'r darlleniad, soniodd Gwenllian am y modd y mae pobl, wrth wynebu profiadau newydd, yn gallu teimlo

ychydig bach yn nerfus. Weithiau mae angen bach o help arnom i wynebu sefyllfaoedd newydd. Mae’r Beibl yn llawn hanesion am bobl oedd ag angen arweiniad i gyflawni eu gwaith, ac un o’r rhai




hynny oedd Moses. Yna cawsom hanes Duw yn galw Moses, ac angel yr Arglwydd yn ymddangos iddo o ganol fflamau perth oedd ar dân. Addawodd Duw wrth Moses y byddai gydag ef wrth iddo arwain pobl Israel allan o’r Aifft. I gyd-fynd â’r darlleniad deuai’r stori’n fyw ar y sgrin trwy olygfeydd a luniwyd o Lego.

Cyflwyniad ar y sgrin oedd y weddi hefyd i gyfeiliant cerddoriaeth a lluniau difyr a phwrpasol i gyd-fynd â’r geiriau, wrth i ni ddiolch am ofal Duw ac am yr amrywiol gyfleoedd a ddaeth i’n rhan dros yr haf. Ac eto rhaid cofio nad oedd yn haf i bawb ond drwy’r cwbl gallwn droi at Dduw am nerth ac arweiniad. I gloi’r weddi ymunodd pawb gyda’i gilydd i adrodd Gweddi’r Arglwydd.

Roedd yr emyn nesaf, *Y mae in Waredwr*, yn werth ei glywed wrth i’r gynulleidfa ganu i gyfeiliant nid un, ond dau fand! Roedd plant y band taro’n llawn brwdfrydedd wrth chwarae’u hamrywiol offerynnau.

Wrth annerch y plant dywedodd Beti-Wyn fod rhai pethau'n ymddangos yn amhosibl. Cyfaddefodd fod mathemateg, iddi hi, yn amhosibl ac mai'r unig rifau mae'n eu deall yw emynau! Fodd bynnag, gydag ychydig o help, daw'r amhosibl yn bosibl. Daeth Caleb ac Anna ymlaen i'w helpu, a rhoddodd Beti-Wyn gadwyn a chylch iddynt, ac fe wnaethon nhw gadarnhau bod y ddau beth yn gadarn. Rhoddodd Beti-Wyn y cylch yn sownd ar y gadwyn ac ni allai'r ddau gynorthwyydd eu cael yn rhydd. Fodd bynnag, wrth i bawb ddweud y geiriau hud "Capel y Priordy", daeth y cylch oddi ar y gadwyn. Roedd yr hyn oedd yn ymddangos yn amhosibl wedi dod yn bosibl. Yna cafodd Beti-Wyn ddarn o bapur a gofyn i Osian gerdded trwyddo. Amhosibl. Ond wedi iddi dorri trwy'r papur, gallai Osian wedyn gerdded



trwyddo'n hawdd. Y neges oedd ei bod yn bwysig gofyn am help a chyda nerth ac arweiniad Duw mae popeth yn bosibl, fel y gwelodd Moses.

Ar ôl canu'r emyn *Iesu Geidwad Bendigedig*, gweinyddwyd y Cymun ac wrth i'r bara a'r gwin gael eu dosbarthu cafwyd unawd ar y ffliwt gan Elin i gyfeiliant Nicki ar y piano. Dau emyn Cymun oedd y darnau ac roedd hyn yn hyfryd o effeithiol.

I gloi'r gwasanaeth daeth y gynulleidfa ynghyd i ganu'r emyn *Dyro dy gariad*, a dyna i chi oedfa blant ddifyr arall wedi hedfan heibio, yn union fel y gwnaeth y gwyliau haf.

## BLWYDDYN BYW Y BEIBL

BYW Y BEIBL

## DARLLENIADAU HYDREF

BYW Y BEIBL

| | |
|---|---|
| **Wythnos 1:** | **Philipiaid 2:1-13** |
| | |
| **Wythnos 2** | **Philipiaid 3: 4b-14** |
| | |
| **Wythnos 3** | **Philipiaid 4:1-9** |
| | |
| **Wythnos 4** | **Salm 99** |
| | |
| **Wythnos 5** | **Salm 90: 1-6, 13-17** |

## AR DAITH!

**Mae 3 o bobl ifanc y capel yn mynd i UDA yr wythnos hon gyda cherddorfa'r Sir, sef Gwenllian Howells, Hanna Medi Lewis a Catrin Owen. Pob dymuniad da iddynt!**



## OEDFA YN HEOL AWST



**Prynhawn Sul, 8 Hydref 2017 am 3**

### Isaias Grandis

***Pregethwr Gwadd***

Frodor o Batagonia yw Isaias. Fe'i magwyd yn Nhrevelin wrth droed yr Andes mewn ardal Gymreig. Er nad yw'n dod o dras Cymreig magodd ddiddordeb yn yr iaith a glywai'n cael ei siarad gan ei gymdogion. Yn 2009, mynychodd gwrs Cymraeg dwys ym Mhrifysgol Caerdydd a daeth yn diwtor Cymraeg yn Ysgol y Felin, sef Ysgol Cymraeg Trevelin, ac yn athro Hanes yn yr Ysgol Uwchradd a thywysydd yn yr ardal leol. Enillodd Isaias wobr *Dysgwr y Flwyddyn* yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2012 ac erbyn hyn mae'n hyfforddi i fynd i'r Weinidogaeth ac yn golygu bod yng Nghymru am tua blwyddyn.

*Croeso cynnes i bawb*
*Nigel George*
*Ysgrifennydd*

**THEATR GENEDLAETHOL CYMRU**
***yn cyflwyno***
**HOLLTI**
***gan***
**Manon Wyn Williams**
**Nos Iau 12 Hydref 2017 – 7.30**
**Theatr y Lyric, Caerfyrddin**




*Mae datblygiadau ar y gweill i adeiladu atomfa newydd ar Ynys Môn. Ond pa effaith gaiff yr Wylfa Newydd ar ei chymdogion agosaf wrth i beiriant mawr cyfalafiaeth geisio llyncu fferm sydd wedi bod yng ngofal yr un teulu ers cenedlaethau? Oes gennym ni ddewis? Sut arall fedrwn ni ofalu na fydd y golau'n diffodd? Ac onid oes gwir angen y swyddi? Dyma ddrama air-am-air newydd a beiddgar am hawl ein cymunedau i lunio'u dyfodol eu hunain. Gyda sgript wedi'i chreu o gyfweliadau gyda thrigolion lleol, daw cast o wynebau cyfarwydd â'r dadleuon yn fyw*

**Sesiwn holi ac ateb ôl sioe, gydad aelodau o'r cast**
**Cyswllt - ☎0845 226 3510**

**Y TYST**
**50c y rhifyn!**
**Cysyllter â Sulwyn Thomas**



## AGOR Y LLYFR

Mae Agor y Llyfr yn gynllun tair blynedd i alluogi eglwysi i greu cysylltiad â'u hysgol leol drwy ymweld yn gyson i ddarllen stori Feiblaidd i'r plant.

Bwriad **Agor y Llyfr** yw cyflwyno tua 80 stori dros gyfnod o dair blynedd i blant oed cynradd mewn ysgolion ledled Cymru.



Rydym yn hynod o falch eich bod wedi llwyddo i ymgynnull tîm o bobl o'r Priordy, ynghyd â Joan Thoams o Heol Awst, i gyflwyno un stori Feiblaidd yn Ysgol y Derwen unwaith y mis.  Cafodd y cyflwyniad cyntaf ymateb da iawn a'r plant yn gwrando'n astud!  Os hoffech fod yn rhan o dim Agor y Llyfr, cysylltwch â Beti-Wyn. Ni fydd angen pawb i gymryd rhan pob mis os nad oes digon o amser.gennym

**TUDALEN BLAEN**

**Y RHESWM AM DDEWIS GILL OWENS**



**Bu'r teulu'n bobyddion am 75 o flynyddoedd a daw'r cyswllt hwn i'r cof, yn arbennig adeg y cynhaeaf. Hefyd. mae arfer y teulu o fynychu'r oedfa ar y Sul i ddiolch am fara'r bywyd yn parhau.**



## GWENLLIAN LLŶR

## *O WYLL I WAWR*

**Nos Wener - 17.11.17 – 7 o'r gloch**
**CAPEL Y PRIORDY**
**CAERFYRDDIN**

**www.GwenllianLlyr.com**

## BAND TARO'R PRIORDY'N CODI'R TO!



## AGOR Y LLYFR

*Gweler yr adroddiad yn y Papur*



# Tudalen Ieuenctid@Priordy

Capel Y Priordy, Cana a Bancyfelin



*Taith Gerdded*

*a*

*Barbeciw i bawb!*



*Prynhawn Sul, 22 Hydref, 2017*

Cwrdd o 2.30 o'r gloch ymlaen
yng Nghanolfan Rygbi'r Cwins, Abergwili
Digon o le i barcio
Taith gerdded o amgylch ardal
Abergwili yn cychwyn am 3 o'r gloch yn brydlon
Diolch i aelodau Bancyfelin am drefnu
Barbeciw ar ddiwedd y daith yng
Nghanolfan Rygbi'r Cwins, Abergwili
Epilog gan Beti-Wyn i ddiweddu'r prynhawn.
Croeso i bawb o bob oed i gerdded am 3 neu
i wledda am 4
Elw'r prynhawn at
Apêl Corwynt Cariad, Cymorth Cristnogol
Cŵn poeth £1.50
Byrgyr £1.50
Tê/Coffi/Diod oer a chacen £1

## Cwrdd Diolchgarwch

Diolch am eich rhoddion i’r Banc Bwyd

## Gŵyl Mawl Medi

Diolch i’r rhai ohonoch a ddaeth i Ŵyl Mawl Medi a diolch arbennig i Miriam a Beca am am gyhoeddi emyn yr un ar ran Y Priordy.

# PIP ar daith

Ydych chi erioed wedi meddwl am rai o’r digwyddiadau sydd wedi bod yn yr hen Lys ar y Clos Mawr (Guildhall) yng Nghaerfyrddin? Wel, dewch ar daith arbennig drwy’r adeilad gyda Maer y Dref, Alun Lenny. a fydd yn sôn wrthych am achosion enwog a gynhaliwyd yn y llys, ynghyd â’r noson pan gipiodd Gwynfor Evans ei sedd yn San Steffan.

# Y dyddiad - bore Sul, Hydref 15

Cwrdd yn y Capel am 10. Gadael yr oedfa a cherdded i’r Clos Mawr.

Paned neu ddiod i bawb yn Café Nero ar ôl yr ymweliad trwy garedigrwydd yr Ysgol Sul.

Cofiwch ymuno ar gyfer y daith unigryw hon.

Hwyl am y tro, *Beti-Wyn*

# OEDFA LLANUWCHLLYN



**Yn y llun: Y Parchedigion Hywel W Richards, Gareth Morgan Jones, W J Edwards, Beti-Wyn James a Carwyn Sidda**



Oedfa i ddathlu hanner can mlynedd o wasanaeth

*Y Parchedig William John Edwards*

i achos Iesu Grist

~ ~ ~ ~ ~ ~

*1967 – 1992*
*Eglwys Yr Hen Gapel, Llanuwchllyn*

*1984 – 1992*
*Gofalaeth Bro Llanuwchllyn a'r Cylch*

*1992 – 2001*
*Y Priordy, Caerfyrddin, Cana a Bancyfelin*

*2003 – 2011*
*Bethlehem, Aberhosan, Y Graig, Machynlleth a Saron, Llanwrin*

~ ~ ~ ~ ~ ~

Prynhawn Sul, Medi 10fed, 2017
am 3:00 o'r gloch
yn Yr Hen Gapel, Llanuwchllyn

~ ~ ~ ~ ~ ~

*"Deuwch, addolwn ac ymgrymwn,*
*plygwn ein gliniau gerbron yr Arglwydd a'n gwnaeth"*

*(Salm 95:6)*

**Beti-Wyn Janes….**

## OEDFA I DDATHLU HANNER CAN MLYNEDD Y PARCHEDIG W J EDWRADS YN Y WEINIDOGAETH

***AETH*** 24 o aelodau'r Ofalaeth i Lanuwchllyn wedi'r cwrdd fore Sul, 10 Medi 2017.



Er nad oed y tywydd yn garedig iawn, roedd y cwmni ar y bws yn un llawen. Fe'n gyrrwyd yn ofalus drwy'r gwynt a'r glaw gan Dave, a chael croeso cynnes gan gyfeillion Llanuwchllyn a'r Cylch wrth gamu i mewn i gludwch **yr Hen Gapel.**

Roedd tyrfa niferus wedi dod ynghyd ar gyfer yr achlysur pwysig hwn yn hanes ein cyn-weinidog, Y Parchedig W J Edwards.



Llywyddwyd yr oedfa gan **Y Parchedig Carwyn Siddall**, gweinidog presennol yr Ofalaeth. Cyhoeddwyd yr emyn cyntaf, o waith ei thaid, y diweddar Barchedig Athro Harri Williams,gan Nest Gwilym. Darllenwyd o'r Gair ac arweiniwyd y gynulleidfa mewn gweddi gan ddau gyfaill i WJ, sef Y Parchedigion Hywel Wyn Richards a Gareth Morgan Jones.

Rhannodd W J rhai o'i atgofion a phawb yn falch iawn ei fod yn ddigon iach i'n hannerch. Gweinyddwyd y Cymun gyda pharch ac urddas gan Carwyn Siddall, a chyhoeddwyd yr emyn olaf a'r Fendith gan Y Parchedig Beti-Wyn James.

Mwynhawyd te prynhawn hyfryd yn Neuadd y Pentref cyn cychwyn ar y siwrnai hir adref. Roedd y saib yn Aberaeron ar y ffordd adref ar gyfer sglodion a phaned yn dderbyniol iawn!

***DIWRNOD*** da i bawb**.**

## CROESAWU PERERINDOD Y TABERNACL, PEN-Y-BONT AR OGWR



***HYFRYD*** oedd croesawu cyfeillion y Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr i Oedfa'r Bore yn y Priordy ar Ddydd Sul, 17 Medi 2017! Tref Caerfyrddin oedd canolbwynt eu Pererindod eleni a phenllanw'r penwythnos oedd yr oedfa hon.

A ninnau ar drothwy Diwrnod Heddwch Rhyngwladol ar 21 Hydref, roedd hi'n briodol fod ein Gweinidog, Y Parchedig Beti-Wyn James, wedi seilio'r oedfa ar heddwch a thangnefedd. Byddai fel arfer yn gwneud hyn ar Sul Heddwch, sef 24 Medi ond nid oedd hynny'n bosibl y tro hwn gan ein bod yn ymuno â Gŵyl Mawl Medi yn Ebeneser Abergwili ar y diwrnod hwnnw.




Cawsom ein hatgoffa o eiriau Ghandi: *'Os ydym am greu heddwch mae'n rhaid i ni ddechrau gyda'r plant.* A'r plant a gafodd y sylw pennaf ar ddechrau'r Oedfa a sgwrs ein Gweinidog â nhw'n troi o gwmpas y Faner Heddwch a'r hyn y saif drosto.

Symbolaeth y Goeden Heddwch Ryngwladol, oedd testun myfyrdod ein Gweinidog a thrafododd arwyddocâd y gwreiddiau, y boncyff a'r canghennau o safbwynt heddychiaeth Cristnogol. Mae'n goeden fytholwyrdd a ffrwythlon hon yn dangos yn glir i ni mai lledaenu grym cariad a goddefgarwch yn enw Crist yw'n dyletswydd fel Cristnogion. A daethom ninnau'r oedolion i werthfawrogi mor bwysig yw hyfforddi'r genhedlaeth iau i gynnal heddwch, fel y mynegodd Gandhi.



Roedd y rhannau arweiniol yng ngofal Heulwen Thomas (Capel

y Tabernacl) ac Anwen Owen (Y Priordy). Rhwng y darlleniad a'r weddi, gydag *A glywi di?* - un o ganeuon hyfryd Gwenan Gibbard - yn gefndir, cawsom gipolwg ar erchylltra trais a gwrthdaro mewn cymhariaeth â thangnefedd a heddwch drwy gyfrwng cyfres o luniau dirdynnol ar Pwynt Pwer. Crëodd hyn argraff ar bawb.

Y casglyddion oedd Jona, Siwan, Osian a Miriam. Roedd Janet Davies wrth yr organ a'r cyhoeddwr oedd Gareth Gravell.



Wedi'r oedfa bu cyfle i ni gymdeithasu uwchben paned yn y Festri. Mynegwyd diolch ar ran y Tabernacl am y croeso a gafwyd, i Beti-Wyn am yr oedfa ac i'r gwragedd am baratoi'r lluniaeth ysgafn gan **Y Parchedig Dyfrig Rees,** Gweinidog y Tabernacl**.**

***BU'N*** fore gwahanol, bendithiol a chyfoethog.

## GOLEUADAU NOS CAERFYRDDIN

**Hoffech chi ymuno â'n Tîm Stryd?**




**Gallech fod yn rhan o dîm cyfeillgar *Goleuadau Nos* Caerfyrddin sef gwirfoddolwyr o eglwysi a chapeli lleol sy'n mynd allan i strydoedd y dref ar nosweithiau Sadwrn rhwng 11 yr hwyr a 3 y bore i gynnig cymorth.**

**Mae'r tîm stryd yn defnyddio'r ffôn a radios i gysylltu'n gyson
â'n tîm gweddi yng Nghanolfan Goleuadau'r Nos a gyda'r heddlu.**

**Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â'r Tîm Gweddi neu'r Tîm Stryd, cysylltwch â'r Parchedig Coralie Steel:
☎ 01267 236369] Ebost: info@carmarthennightlight.org.uk
Gwefan: carmarthennightlight.org.uk Gweplyr a Thrydar – Gallwch ein dilyn ar @CarmNightLight**

***Cefnogir gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir Gâr***

# RHAGLEN Y GYMDEITHAS DDIWYLLIADOL
# 2017-18

***Cynhelir y Gymdeithas ar Nos Lun am 7 yn y Festri oni nodir yn wahanol***

| DYDDIAD | SIARADWR | DARLLENYDD | TE |
|---|---|---|---|
| **2017** | | | |
| 2 Hydref | John Rees | Gwilym Jones | Bronwen Wilkins |
| 8 Tachwedd | Cefin Campbell | Wynne Jenkins | Eirlys Jones |
| 4 Rhagfyr *Y Tabernacl, Talog a Foelcwan yn ymuno* | Dr Menna Elfyn | Eurwen Jones | Janet Davies Gloria Evans |
| **2018** | | | |
| Bore Sul 2 Ionawr | Oedfa Deuluol yng ngofal Aelodau Cana yn y Priordy | | |
| Nos Iau 8 Chwefror *Yn ymuno â'r Tabernacl, Talog a Foelcwan* | Dr Ioan Mathews | | |
| **2018** | | | |
| 5 Mawrth | Darthlu Gŵyl Dewi yng ngofal y Dynion | | |
| 16 Ebrill | Elin a Richard Rees | Dr Huw Michael | Gwyn ac Ann Bowyer |
| Nos Fawrth 8 Mai | Swper yn y Llew Coch, Llandyfaelog | Sgwrs gan Geraint Roberts | |
| Dydd Sul 10 Mehefin | Pererindod yr Ofalaeth | | |

**PIGION O GOFNODION CYFARFOD CYTÛN**
**CAPEL Y BEDYDDWYR SAESNEG**

***Nos Lun, 11 Medi 2017***

**WYTHNOS WEDDI ER UNDOD EGLWYS**IG: Cynhelir yr oedfa ddydd Sul, 21 Ionawr 2018, am 5.00pm yng Nghapel yr Annibynwyr Saesneg. Pregeth yn Gymraeg fydd yn yr oedfa, gyda chyfieithu ar y pryd.

**CYMORTH CRISTNOGOL**:
BORE COFFI – Bore Sadwrn, 28 Hydref 2017, yng Nghapel y Bedyddwyr Saesneg, rhwng 10 a12..00.

**DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**:
Nos Lun, 27 Tachwedd 2017, 7.00pm. yng Nghapel y Bedyddwyr Saesneg

**AMNEST RHYNGWLADOL**
Te Amnest yn y Tabernacl, Nos Sul 8 Hydref 2017 am 5

**ARDDANGOSFA CRED A GWEITHRED**

**Amguedda Caerfyrddin**

**20 Medi – 5 Tachwedd 2017**

**Mae'r arddangosfa'n ymwneud â'r themâu recriwtio a gwrthwynebiad cydwybodol i'r Rhyfel Byd Cyntaf, gan edrych ar y credoau a ysgogodd rai i gwestiynu rhyfel a gweithio dros heddwch yn ystod y ganrif ddiwethaf.**

CYMRU DROS HEDDWCH WALES FOR PEACE

***Cynhyrchwyd gan 'Gymru dros Heddwch' / Cymru'n Cofio 14-18***

**Papur Priordy'n cofio…**

## WILLIAM SALESBURY A THESTAMENT NEWYDD 1567

### *Cyhoeddwyd 7 Hydref 1567*



Bu o leiaf ddau ddylanwad pwysig ar fywyd Cymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Uno Cymru a Lloegr ym 1536 oedd un pan ddaeth yr iaith Saesneg yn unig iaith swyddogol Cymru, er bod y bobl i gyd bron yn siarad Cymraeg! Y dylanwad mawr arall oedd y Diwygiad Protestannaidd â'i wreiddiau yn yr Almaen ym 1517 a hynny'n arwain yn y pen draw at roi gair Duw yn nwylo'r Cymry yn eu hiaith eu hunain.

Gyda'r Diwygiad Protestannaidd gwnaethpwyd Cymru'n wlad Brotestannaidd gydag Eglwys Loegr yn eglwys wladwriaethol Cymru a Lloegr. Yn 1563 pasiwyd Ddeddf Seneddol yn awdurdodi cyfieithu'r Llyfr Gweddi Gyffredin a'r Beibl i'r Gymraeg. Yng ngolwg y Senedd byddai lledaenu'r grefydd Brotestannaidd ymhlith y Cymry yn eu hiaith eu hunain yn wleidyddol fanteisiol gan y gallai'u tywyllwch crefyddol beryglu diogelwch y deyrnas. Roedd y Ddeddf yn dipyn o gonsesiwn, serch hynny, wrth i'r Gymraeg, nad oedd yn iaith y wladwriaeth, ddod yn un o'r ieithoedd cyntaf yn Ewrop i fod yn gyfrwng lledaenu Gair Duw wedi'r Diwygiad.

Un a fu'n arwain y galw am gael cyfieithiad o'r Ysgrythurau yn Gymraeg oedd William Salesbury ac mae'n debyg i Richard Davies, gŵr dylanwadol iawn, a ddaeth yn Esgob Llanelwy ym 1560, fod yn gefn iddo yn ei ymdrechion.

Yn ôl y Ddeddf, roedd copïau o'r Llyfr Gweddi Gyffredin a'r Beibl i'w gosod ymhob eglwys trwy Gymru erbyn 1 Mawrth 1567. Doedd y testunau ddim yn barod erbyn hynny ond ymddangosodd y Llyfr Gweddi Gyfredin o fewn deufis ac yna'r Testament Newydd yn y mis Hydref dilynol. Salesbury oedd wedi gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith. Ei unig gydweithwyr oedd Richard Davies a oedd wedi symud i esgobaeth Tyddewi ym 1561, a Thomas Huet, cantor Tyddewi. Mae'n bosibl fod cynlluniau hefyd ar waith gan Salesbury a Davies i gyhoeddi cyfieithiad o'r Hen Destament ond ni ddaeth unrhyw beth o hyn.

Ychydig a wyddom am Salesbury. Roedd o waed bonheddig ac yn ôl ei dystiolaeth ei hun ym mhlwyf Llansannan y cafodd ei eni, a hynny, mae'n debyg, ychydig cyn 1520. Yn weddol gynnar yn ei oes symudodd i fyw i'r Plas Isa, Llanrwst, ac ymsefydlu yno. Aeth i Brifysgol Rhydychen ond ymadawodd heb gymryd gradd. Yno y casglwn iddo gefnu ar Eglwys Rufain a throi'n Brotestant. Treuliodd beth amser yn Llundain cyn dychwelyd i Gymru a byw yno weddill ei oes. Priododd Catrin Llwyd,, chwaer Dr Elis Prys (Y Doctor Coch) o Blas Iolyn, Ysbyty Ifan. Tua 1584 neu ychydig cyn hynny, y bu farw.

Roedd Salesbury'n ysgolhaig mawr. Cyfeirir ato fel Cymro mwyaf dysgedig ei oes. Medrai sawl iaith ac roedd yn hyddysg mewn llawer o bynciau.

Cyhoeddodd nifer o weithiau cyn cyfieithu'r Testament Newydd. Ymhlith y rhain mae *Oll Synnwyr Pen Kembro ygyd yn 1547*, sef casgliad o ddiarhebion Cymraeg o gasglwyd gan Gruffudd Hiraethog, Fel Salesbury, roedd Hiraethog yn hanu o Lansannan a bu'n gyfrwng i'w ddwyn i gyswllt â'r traddodiad llenyddol Cymraeg. Hefyd ym 1547, cyhoeddodd *A Dictionary in Englyshe and Welshe.* Mae'r teitl yn gallu bod yn gamarweiniol gan mai geiriadur Cymraeg-Saesneg a baratowyd er mwyn dysgu Saesneg i'r Cymry yw'r gwaith. Yna ym 1550 cyhoeddodd *A briefe and playne introduction teaching how to pronounce the leters in the British Tong (now com'enly called Welsh)*, sef llyfr i ddysgu Cymraeg i'r Saeson. Yn yr un flwyddyn daeth *The Baterie of the Pope's Botereullx*, traethawd Saesneg yn cynnwys ei resymau dros gefnu ar babyddiaeth. Ym 1551 cyhoeddodd ei gyfieithiad o'r llithoedd a ddarllenid yr yr Eglwys, sef *Kynniver llith a ban.*

Gwaith pwysicaf Salesbury oedd ei gyfieithiad o'r Testament Newydd. Yntau gyfieithodd y cyfan o'r gwaith ar wahân i Lyfr y Datguddiad (Thomas Huet) a'r epistolau canlynol - 1 Timotheus , Hebreaid , Iago, 1 a 2 Pedr (Richard Davies).
Yn Llundain y paratowyd y Testament Newydd i'r Wasg.



Argraffwyd y llyfr gan Humphrey Toy, un o dras Cymreig. a symudodd Salesbury i mewn i'w dŷ er mwyn goruchwylio'r gwaith.

Er bod y Testament Newydd yn gyfieithiad gwych o ran iaith ac arddull roedd yn frith o ffurfiau Lladinaidd ac odrwydd orgraffyddol. Mae'n siŵr mai awydd Salesbury, fel un o'r Dadeni Dysg, i weld y Cymry'n arddell 'tras glasurol eu hiaith' oedd yn cyfrif am hyn. Ond, o ganlyniad, roedd y testun yn annealladwy a dryslyd i lawer, yn enwedig y llai dysgedig. Yn wir, cafodd fawr o groeso mewn gwirionedd. Mae hefyd yn bosib na chafodd bwriad Salesbury i gwblhau cyfieithiad o'r Hen Destament i'r Gymraeg ar y cyd â Richard Davies ei wireddu oherwydd yr anghytuno rhyngddynt ynghylch ei orgraff hynod! Eto i gyd, cyflawnodd Salesbury waith campus ar sawl ystyr, yn enwedig drwy arloesi'r ffordd ar gyfer cyhoeddi'r Beibl cyflawn yn Gymraeg gan William Morgan ym 1588 - y gyfrol bwysicaf yn ein hanes fel cenedl o ran datblygiad ein hiaith a'n hiechyd ysbrydol,



**CÔR MEIBION CAERFYRDDIN**

## CYNGERDD BLYNYDDOL 2017

**Dydd Sadwrn, 18 Tachwedd 2017 – 7.30**
**Capel y Priordy**

***Artistiaid Gwadd***
**Osian Wyn Bowen (Tenor)**
**Côr Merched Hŷn Ysgol Bro Myrddin**
**Meirion Wynn Jones (Organ)**

***Tocynnau: £10 (Huw: ☎ 07528719343 / Dylan (☎ 07751500944) neu wrth y drws***

## DRWS AGORED

***BORE IAU 26 Hydref 2017 – FESTRI'R PRIORDY***
***Paned a Bisgedi am 10.30 / Myfyrdod Byr am 11***
***Croeso cynnes i bawb o bob capel ac eglwys***


## Papur Priordy'n cofio...



## TEGLA
## 1880-1967

***Awdur, Gweindog a Golygydd***

Mae'n siŵr bod yr enw Edward Tegla Davies yn ddigon cyfarwydd i'r rhai sydd â'u gwreiddiau yn yr Eglwys Wesleaidd. Bu Tegla'n weinidog gyda'r Wesleaid ar hyd ei oes mewn gwahanol gylchdeithiau yng Ngogledd Cymru ac ym Manceinion a Lerpwl. Roedd yn un o bregethwyr a phersonau mwyaf amlwg a dylanwadol ei enwad. A hanner can mlynedd yn ôl i'r mis hwn ar 9 Hydref 1967 y bu farw.




Fe'i cofir yn bennaf yn y byd llenyddol am ei nofel *Gŵr Pen y bryn* (1923). Testun y nofel yw troedigaeth ffermwr cyfoethog yn ystod rhyfel y degwm yn y 1880au pan wrthododd llawer o ffermwyr ymneilltuol dalu'r degwm at gynnal Eglwys Loegr a chael eu cosbi o ganlyniad. Nid yw'r nofel heb ei gwendidau ond caiff ei hystyried yn garreg filltir yn hanes y nofel Gymraeg ar gyfrif ei chynllun trefnus, arddull cywrain yr awdur a'i ddadansoddiad seicolegol treiddgar. A gyda llaw, gwelir lluniau **Leslie Illingworth** (1902-79), a fu gyda'r *Daily Mail* ac a ddaeth yn brif gartwnydd gwleidyddol *Punch* yn y nofel hon. Gweithiodd yr artist penigamp hwn, yn wreiddiol o'r Barri, gyda J Hughes a'i Fab, Wrecsam, am ychydig yn ei ieuenctid.



Roedd Tegla'n llenor prysur a phoblogaidd iawn. Ysgrifennodd ar gyfer plant ac oedolion. *Hunangofiant Tomi* oedd ei gyfrol gyntaf i

blant. Yn ôl Bobi Jones, Tegla '*a luniodd lyfrau-plant cyfoethocaf ei gyfnod*'. Byddai'n ysgrifennu'n gyson i'r Wasg Gymraeg a bu'n olygydd *Y Winllan*, cylchgrawn y Wesleaid a'r *Efrydydd* a *Chyfres Pobun*.

Fe'i ganed yn Llandegla-yn-Iâl ar 31 Mai 1880, i un o deuluoedd tlotaf y fro. Symudodd y teulu wedyn i Bentre'r Bais (Gwynfryn erbyn hyn) ac yna i Fwlch Gwyn. Bu'n ddisgybl-athro ym Mwlch Gwyn lle daeth dan ddylanwad athro ifanc o'r enw Tom Arfor Davies a fu'n gyfrifol am ddeffro'i ddiddordeb yn hanes a llenyddiaeth Cymru .Cafodd dröedigaeth ar ôl cyrddau pregethu yng Nghoed-poeth a phenderfynu mynd am y weinidogaeth. Fe'i hyfforddwyd yng Ngholeg Didsbury ym Manceinion. Bu'n briod â Jane (o Fwlch Gwyn) a chawsant dri o blant – Dyddgu, Arfor (a enwyd ar ôl yr athro ym Mwlch Gwyn) a Gwen. Bu'n aelod o gyngor a phwyllgor gwaith yr Eisteddfod Genedlaethol am flynyddoedd ac yn feirniad eisteddfodol mynych. Derbyniodd radd MA. er anrhydedd gan Brifysgol Cymru am ei gyfraniad i lenyddiaeth Gymraeg ac,yn ddiweddarach, D.Litt. Gwrthododd dderbyn OBE er iddo gael y cynnig. Cyhoeddodd hunangofiant o'r enw *Gyda'r Blynyddoedd* Ymddeolodd i Fangor ac yn dilyn ei farwolaeth ym 1967 fe'i claddwyd ym mynwent y Gelli, Tregarth. Cyhoeddwyd cyfrol deyrnged iddo dan olygyddiaeth Islwyn Ffowc Elis, ei fywgraffiad gan Huw Ethall a chyfrol amdano yn y gyfres *Writers of Wales* gan Pennar Davies. Mae plac er cof amdano ar wal Yr Hen Giât yn Pen Stryt, Llandegla-yn-Iâl, sef y tŷ lle cafodd ei eni.

Mae'n rhyfeddol meddwl fel y daeth Tegla'n un o lenorion mwyaf toreithiog y Gymraeg ac yntau erioed wedi cael gwers Gymraeg yn yr ysgol nag addysg prifysgol. Ond bu'i gyfeillgarwch ag Ifor Williams a T Gwynn Jones a gwŷr llên eraill yn gymorth mawr iddo.




Gor-ŵyr i Tegla yw **Stephen Davies**, awdur llyfrau i blant. Mae'n amlwg i Stephen, a aned ym 1976, etifeddu dawn lenyddol ac awch cenhadol ei hen daid os nad ei Gymraeg gyfoethog. Yn llythyrwr cyson yn *The*

*Guardian Weekly,* mae hefyd yn achlysurol yn cyfrannu darnau ar deithio yn *The Sunday Times* ac *Africa Geographic.* Bu'n genhadwr yn **Burkina Faso**, un o wledydd tlotaf Gorllewin Affrica, rhwng 2001 a 2013. A'r cefndir i lawer iawn o'i lyfrau yw Burkina




Faso, Mali a Niger ar ffin ddeheuol Anialwch y Sahara.

Bellach mae yntau a Charlotte, ei wraig, yn byw gyda'u merched, Liberty a Daisy, yn Llundain. Mae Stephen yn treulio llawer o'i amser yn ymweld ag ysgolion, dramor ac yn nes adref, yn helpu plant gyda'u hysgrifennu creadigol. Mae ganddo hefyd gyfres mewn tair rhan ar y we sy'n olrhain hanes ei hen daid.



## APÊL PIBAU'R PRIORDY
## (CRONFA ORGAN Y CAPEL)



Mae cyfnod yr Apel yn dirwyn i ben ond dyw hi ddim yn rhy hwyr i fachu un o'r pibau! Dewch i weld y darlun mawr o bibau'r organ ym mlaen y capel a'r manylion am y dull o noddi!

*DIolch yn fawr iawn i Tim Hayes am drefnu'r Apêl*

**Hoffem ddiolch o galon i Elinor Wyn, Geraint Huw ac Iwan Prys am eu rhodd hael o £1000 at Gronfa'r Organ er cof am eu rhieni John ac Elisabeth Reynolds. Gwyddom yn dda am ffyddlondeb a gweithgarwch arbennig John ac Elisabeth yn y Priordy a'u sêl dros bethau gorau'n cenedl. Gwerthfawrogwn y rhodd hon yn fawr iawn. Bydd yn sicr o gymorth mawr i'n heglwys.**

CYMORTH CRISTNOGOL

## BORE COFFI

**Dydd Sadwrn – 28 Hydref 2017**
**10 hyd 12**
**Capel y Bedyddwyr Saesneg, Caerfyrddin**

## SIEILOC

Drama un dyn newydd yn yr iaith Gymraeg
Perfformir gan Rhodri Miles

Theatr y Lyric
Nos Fercher, 25 Hydref 2017 – 7.30


*Swyddfa Docynnau ☎ 0845 226 3519*



### CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY

**Nos Fercher 22 Tachwedd 2017 am 7 yn y Festri**
*Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda*

## BLYCHAU YN Y CYNTEDD


**COFIWCH AM Y BLWCH STAMPIAU A'R BLWCH CETRYS A'R BLWCH POTELI PLASTIG YN Y CYNTEDD**


**Beth am droi at cyfundeb.com?**
**Gwefan Cyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin**



# ADEILADAU'N ACHOSI PEN TOST

**A wyddoch chi fod mwy na chant o eglwysi wedi cau mewn degawd yng Nghymru?**

**Mae mwy na 10 Eglwys Anglicanaidd yn cau'n flynyddol yng Nghymru, yn ôl ffigyrau gan yr Eglwys yng Nghymru.**



**Mae'r ffigyrau yn dangos bod 115 o eglwysi wedi cau mewn degawd sy'n 8% o'r cyfanswm, gyda 1,319 d yn parhau i gael eu defnyddio. Ar hyn o bryd mae 11 eiddo ar werth ar safle wefan yr Eglwys.**

**Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi dweud bod cau'r eglwysi yn "broblem sylweddol", Er bod y gyfradd wedi aros yn gyson, mae'n annhebygol o arafu. Dywedodd pennaeth eiddo'r Eglwys, Alex Glanville, fod cynlluniau i gymryd golwg rhanbarthol ar eglwysi yn hytrach na gadael iddyn nhw ymdopi â'r sefyllfa ar eu pennau ei hunain. Mae cyfradd cau yng Nghymru ychydig yn uwch na Lloegr, gan gymryd nifer y boblogaeth i ystyriaeth, ble mae 20 eglwys yn cau yn flynyddol. Un o'r problemau yng Nghymru yw bod nifer o'r adeiladau mewn cymunedau bychain, mewn "llefydd anghysbell" a chynulleidfaoedd eglwysi'n lleihau.**

**Mewn arolwg diweddar gan yr Ymddiriedolaeth Eglwysi Cenedlaethol ar gyfer addoldai yng Nghymru, gan gynnwys enwadau anghydffurfiol, eglwysi Catholig ac eiddo'r Eglwys yng Nghymru, dywedwyd mai'r broblem fwyaf oedd yn eu hwynebu oedd ceisio cynyddu cynulleidfaoedd a denu addolwyr newydd.**

**Dywedodd pennaeth cyfathrebu'r ymddiriedolaeth, Eddie Tulasiewicz, ei fod yn credu bod capeli'n cau ar gyfradd o tua un yr wythnos, ond roedd nifer yr enwadau yn ei gwneud hi'n anodd bod yn fanwl gywir. Dywedodd fod dyfodol adeiladau dan fygythiad yn dibynnu ar ffactorau, gan gynnwys lleoliad a maint y boblogaeth ac nad oedd "dyfodol ar gyfer rhai adeiladau" "Mae'r hyn a godwyd yn y 19eg Ganrif ar gyfer poblogaeth o 6,000 i 10,000 o bobl wedi gostwng i 2,000 neu 3,000 a does neb ar ôl i fynd yno. Y peth yw ceisio meddwl am yr hyn y gellir ei wneud gyda'r adeiladau y tu allan i ddibenion crefyddol."**



***BBC Cymru Fyw***



**Tudur Dylan Jones…**

## Diwrnod Heddwch Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig *21 Medi*

***UNWAITH ETO***, mae Caerfyrddin wedi nodi'r diwrnod pwysig hwn wrth i Faer y Dref godi'r Faner Heddwch y tu allan i Neuadd San Pedr. Mae'r weithred hon yn digwydd yn flynyddol bellach, ac mewn byd sy'n cynyddol ddangos ei ddannedd, mae'n hyfryd gweld criw yn dod at ei gilydd i nodi pa mor bwysig yw atgoffa pobl mai heddwch rhwng pobl â'i gilydd yw'r nod.

Agorodd Mererid Hopwood y cyfarfod drwy nodi bod Cymdeithas y Cymod wedi anfon llythyrau at ein Haelodau Seneddol yn holi cwestiynau am leoli'r Adar Angau yn Aberporth. Mae damweiniau wedi digwydd, a'r peiriannau hyn wedi disgyn o'r awyr, ond dim ond yn ddiweddar y mae'r wybodaeth am hyn wedi dod i'r golwg. Mae'r Adar Angau hyn yn peryglu nid yn unig ein poblogaeth leol ni yma yng Ngorllewin Cymru, ond hefyd unrhyw un fyddai'n dioddef oherwydd yr ymosodiadau o'r awyr. Hefyd anfonwyd llythyrau at gynrychiolwyr Undebau'r Ffermwyr i ofyn i ffermwyr ddilyn esiampl y rhai hynny sy'n dewis peidio â rhoi caniatad i'r Fyddin ddefnyddio eu tir fel man ymarfer.



Nododd y Maer, Alun Lenny ei bod hi'n glod i'r dref ein bod yn cynnal y seremoni hon yn flynyddol, ac fe wrandawyd ar eiriau cynrychiolydd o'r Cenhedloedd Unedig yn dyheu am heddwch rhwng gwledydd. Yna atgoffodd Guto Prys ap Gwynfor y gynulleidfa o'r ffordd y defnyddiwyd Hedd Wyn gan y sefydliad i hyrwyddo rhyfel, ond bod pobl leol Trawsfynydd wedi dewis cofeb yn dangos Hedd Wyn fel person cyffredin, fel bugail, yn hytrach na fel milwr.



***CAWSON*** gân hyfryd o addas gan **Fflur Dafydd**, sef *'Ffydd, Gobaith, Cariad.'* Canwyd emyn tad-cu Fflur, sef T. Elfyn Jones, gan y gynulleidfa cyn i Alun Lenny godi'r faner a'i gwylio'n cyhwfan unwaith eto uwch strydoedd Caerfyddin.

## CASGLIAD Y GENHADAETH

**Cynhaliwyd Casgliad y Genhadaeth ar Ddydd Sul 17 Medi 2017. Os ydych yn dymuno rhoi ac wedi methu'r dyddiad, dyw hi ddim yn rhy hwyr! Bydd ein Trysorydd, Adrian Evans, yn falch o dderbyn eich rhoddion. Gofynnir i chi, os gwelwch yn dda, ddodi'ch rhodd mewn amlen gyda'ch enw a'ch rhif ar y blaen. Llawer o ddiolch**

## DIOLCH YN FAWR



Diolch i Beti-Wyn a Philip, Delyth Davies a Tudur Dylan Jones am y lluniau'r mis hwn



Beth am droi at
Wefan yr Undeb?
www.annibynwyr.org

**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Tachwedd i'n Gweinidog ☎ 01267 neu Tina Charles ☎ 01267 236037**

**Y GYMDEITHAS DDIWYLLIADOL**
**CYFARFOD CYNTAF Y TYMOR NEWYDD**
**Siaradwr Gwadd – John Rees**
**Nos Lun – 2 Hydref 2017 – 7 - Y Festri**

# DYLETSWYDDAU

## GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

| HYDREF | | TACHWEDD | |
|---|---|---|---|
| Gofalwr | Gwresogwr | Gofalwr | Gwresogwr |
| Philip Jones | Gwynfor Davies | Philip Jones | Gwynfor Davies |

## BLODAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Hydref | 1 | Jan Davies | Tachwedd | 5 | Llinos Jones |
| | 15 | Rhyswen Michael | | 12 | Tina Charkes |
| | 29 | Thelma Evans | | 19 | Nansi Hayes |
| | | | | 26 | June Thomas |

## PARATOI'R BWRDD CYMUN

| | | | |
|---|---|---|---|
| Hydref | 3 | Hwyr | Alison Parsons a Ffion Parsons |
| Tachwedd | 5 | Bore | Mari Jenkins a Thelma Evans |

## YMWELWYR


| | |
|---|---|
| Medi / Hydref | Thelma Evans a June Thomas |
| Tachwedd / Rhagfyr | Ein Gweinidog (Anrhegion Nadolig) |

| DARLLENWYR | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Hydref** | **1** | | **Tachwedd** | **5** | **Llinos Jones** |
| | **8** | **Meinir Jones** | | **82** | **Tina Charles** |
| | **15** | **Lleucu Edwards** | | **19** | **Nansi Hayes** |
| | **22** | **Siân Axford** | | **26** | **June Thomas** |
| | **29** | **Wyn Tegryn Evans** | | | |

## CYHOEDDWYR

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Hydref** | **Wyn Tegryn Evans** | **Tachwedd** | **Philip Jones** |

***BRAINT*** oedd cael bod yn dyst i fedydd Caleb, Gwilym ac Osian, meibion Sioned a Dewi Snelson, Trem y Coleg, Caerfyrddin ar fore Sul 10 Medi 2017. Cyflwynwyd tystysgrifau bedydd iddynt gan Ethan Daniel ac Iestyn Evan. Ein dymuniadau da i'r teulu i gyd.



Bu Dewi Snelson ar **Radio Cymru'n** siarad am sefyllfa'r Gymraeg yn y dref ar hyn o bryd ac ychydig am ddylanwad datganoli ar y Gymraeg o fewn y dref a'r Dr Huw Michael, Llys Picton, yn trafod



arwyddocâd y newyddion bod cost cynhyrchu trydan trwy ddefnyddio tyrbinau gwynt ar y môr wedi gostwng yn sylweddol ac yn awr yn llai na chost ynni niwclear newydd. Ein dymuniadau da hefyd i Huw fel Llywydd Clwb Cinio'r Dynion sydd newydd ddechrau tymor newydd.

Anfonwn ein cofion at y rhai mewn ysbyty neu sydd newydd fod yno, sef Margaret Jones (Ysbyty Llanymddyfri), David Lloyd, Tina Charles a John Maddox. Meddyliwn hefyd am bawb arall sy'n anhwylus y dyddiau hyn.



***A PHEN-BLWYDD*** hapus iawn i Eurwen Jones, Heol Pentremeurig, sy'n dathlu blwydd arbennig ar 15 Hydref 2017. Pob dymuniad da oddi wrth bob un ohonom yn y Priordy. Mwynhewch y dathlu!

## CYDYMDEIMLAD

Rydym, yn cydymdeimlo â Betsan James, Tresi Aur ar golli'i hewythr William Emrys James, Rhydargaeau a chynt o Alltwalis) ar 26 Awst 2017. Roedd yn frawd i'r diweddar Barchedig Denzil James, tad Betsan. Meddyliwn am y teulu cyfan yn eu colled.

Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd â Hilary a Phil Kynaston, Glynderi, ar golli nith Hilary'n ddisymwth iawn ar 6 Medi 2017, sef Anwen Heledd Thomas, Maesyllan, Login, Hendygwyn, a hithau ond yn 21 oed. Mae'n meddyliau gyda'u rhieni a'i chwaer a'i chymar a'r teulu cyfan ar yr adeg anodd hwn. Hefyd, collwyd Mrs Sadie Stone, mam Hilary,yng Nghartref Plas y Dderwen ar 28 Medi 2017. Mae'n cydymdeimlad yn ogystal â Hilary a'r teulu yn y golled hon..

Clywsom ychydig ddyddiau'n ôl hefyd am golli Mrs Elfira (Eira) Jones, Fferm y Pant, Llangynnwr, un o aelodau hynaf y Priordy, Cynhelir yr angladd yn y Priordy ar brynhawn Llun, 2 Hydref 2017 am 2.15. Cydymdeimlwn â'r teulu cyfan yn eu colled. Byddwn yn cofio amdani ac yn diolch am ei bywyd yn ein rhifyn nesaf.

# Y SULIADUR

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Hydref** | **1** | *Bore*<br>*Hwyr* | Cwrdd Diolchgarwch y Plant a’r Bobl ifainc<br>Cwrdd Pregethu a Swper Diolchgarwch gyda’r Parchedig John Roberts (BBC Radio Cymru) a’n Gweinidog. Y Tabernacl yn dod atom<br>*Rhoddion y Plant at Fanc Bwyd Caerfyrddin. Casgliad rhydd y ddwy oedfa at y Cynllun Gefeillio TŷBach* | **Cymun** |
| | **8** | *Bore*<br>*Hwyr* | Ein Gweinidog<br>Cydaddoli yn y Tabernacl gyda’r Parchedig Peter Cutts. Cynhelir Te Amnset. Manylion y tu mewn | |
| | **15** | *Bore*<br>*P’nawn* | Ein Gweinidog<br>Cinio Dydd Sul yr Ofalaeth | |
| | **22** | *Bore*<br>*P’nawn* | Ein Gweinidog<br>Taith Gerdded, Barbeciw ac Epilog yr Ofalaeth yn Abergwili am 3. Manylion y tu mewn | |
| | **29** | *Bore*<br>*P’nawn* | Y Parchedig Denzil John<br>Oedfa i’r Ofalaeth yng Nghana am 2 gyda’r Parchedig Denzil John | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Tachwedd** | **5** | *Bore*<br>*Hwyr* | Ein Gweinidog<br>Ein Gweinidog. Y Tabernacl yn ymuno â ni | **Cymun** |
| | **12** | *Bore*<br>*Hwyr* | Ein Gweinidog<br>Cydaddoli yn y Tabernacl gyda’r Parchedig Peter Cutts | |
| | **19** | *Bore*<br>*P’nawn* | Y Parchedig Ddr Geraint Tudur<br>Oedfa i’r Ofalaeth ym Mancyfelin am 2 gyda’r Parchedig Ddr Geraint Tudur | |
| | **26** | *Bore* | Ein Gweinidog | |

<table>
<tr><th colspan="9">CALENDR Y PLANT A’R BOBL IFAINC</th></tr>
<tr><td colspan="9">✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy CP : Cwrdd Plant<br>Y – Ymarfer ar gyfer Gwasanaeth y nadolig - Dim Ysgol Sul</td></tr>
<tr><td colspan="5">Hydref</td><td colspan="4">Tachwedd</td></tr>
<tr><td>1</td><td>8</td><td>15</td><td>22</td><td>29</td><td>5</td><td>12</td><td>19</td><td>26</td></tr>
<tr><td>CP</td><td>✓</td><td>✓Erw Hir<br>PIP – Ar daith</td><td>✓</td><td>-</td><td>✓</td><td>✓<br>PIP</td><td>Y</td><td>Y</td></tr>
</table>

**COFIWCH AM Y GYMDEITHAS DDIWYLLIADOL NOS LUN, 2 HYDREF 2017**

***Manylion y tu mewn***